# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

6 Gorffennaf 2016

## SL(5)003 – Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi mecanwaith ar waith i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyd-ariannu'r cymorth a roddir i'r sector pysgodfeydd a dyframaethu drwy gronfa newydd o'r enw Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, fel y maent yn gymwys i'r rhaglenni gweithredol a sefydlwyd o dan Reoliad (UE) Rhif 508/2014 .

Yn ogystal â hyn, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Pysgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2009 (OS / 2009/360 ( 'Rheoliadau 2009'). Maent yn cynnwys darpariaeth drosiannol er mwyn medru parhau i drin ceisiadau a dderbynnir gan Weinidogion Cymru cyn 31 Rhagfyr 2015 o dan delerau'r Rheoliadau 2009.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972

**Fe'u gwnaed ar:** 22 Mehefin 2016
**Fe'u gosodwyd ar**: 24 Mehefin 2016
**Yn dod i rym ar:** 20 Gorffennaf 2016

## SL(5)005 - Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio offerynnau statudol penodol yn ymwneud â gwastraff, sy'n cyfeirio at Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t.3) ("y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff").

Mae angen y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn er mwyn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1127 dyddiedig 10 Gorffennaf 2015 sy'n diwygio Atodiad II i'r Gyfarwyddeb Framwaith Gwastraff (OJ Rhif L 184, 11.7.2015, t.13).

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999; Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003, Gwastraff (Cymru) 2010; Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

**Fe'u gwnaed ar:** 28 Mehefin 2016
**Fe'u gosodwyd ar**: 1 Gorffennaf 2016
**Yn dod i rym ar:** 31 Gorffennaf 2016

# SL(5)006 – Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 ("Gorchymyn 2011"), sy'n cynnwys cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ar wastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol (OJ L 312, 22.11.2008, t. 3.) ("y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff").

Mae angen y diwygiad a wneir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn er mwyn gweithredu diwygiadau i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a wneir gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1127 dyddiedig 10 Gorffennaf 2015 sy'n diwygio Atodiad II i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r cyfeiriad at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yng Ngorchymyn 2011.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972

**Fe'u gwnaed ar:** 28 Mehefin 2016
**Fe'u gosodwyd ar**: 1 Gorffennaf 2016
**Yn dod i rym ar:** 31 Gorffennaf 2016